



Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

J Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

[REDACTED]
Prif Arolygydd – Rhaglen Traws ONR
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi L20 7HS

Rhif ffôn: [REDACTED]
E-bost: [REDACTED]

Ein Cyfeirnod:
Cyf TRIM: 2016/0186578
Rhif Unigryw: ONR-COP-EPR-16-116

Dyddiad: 28 Mehefin 2016

RHEOLIADAU YMBELYDREDD (PARODRWYDD AM ARGYFWNG A GWYBODAETH GYHOEDDUS) 2001 (REPPIR) – ARDALOEDD CYNLLUNIO ARGYFWNG ODDI AR Y SAFLE WYLFA

Annwyl Dr Jones a Mr Jones,

Fel y gwyddoch, mae'r ONR wedi bod yn ail bennu'r ardal cynllunio argyfwng oddi ar y safle⁽¹⁾ a'r ardal ble bydd gwybodaeth flaenorol yn cael ei darparu i'r cyhoedd parthed safle niwclear trwyddedig Wylfa, fel y rhagnodwyd yn rheoliadau 9(1) ac 16(1) REPPIR yn y drefn honno.

Cychwynwyd y broses hon gyda'r Adroddiad Asesiad a dderbyniwyd gan Magnox Ltd.

Mae'r penderfyniad hwn hefyd yn ystyried egwyddorion yr ONR ar gyfer pennu⁽²⁾ ardaloedd o'r fath ac mae'r llythyr hwn yn hysbysu Cyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod lleol arweiniol sy'n gyfrifol dan REPPIR ar gyfer paratoi'r cynllun argyfwng oddi ar y safle⁽³⁾ o amgylch safle Wylfa ynghylch y canlynol:

1. Mae'r ONR yn nodi, yn unol â gofynion rheoliadau 5 a 6 REPPIR, mae Magnox Ltd wedi adolygu ei Werthusiad Nodi Perygl a Risg a chyflwyno Adroddiad Asesiad (RoA) dan reoliad 5(2) REPPIR i'r ONR.
2. Mae'r ONR wedi cwblhau ei asesiad o'r cyflwyniadau hyn ac wedi casglu eu bod yn bodloni gofynion rheoliad 6(4) ac Atodlen 5 REPPIR a bod angen o hyd am gynllun argyfwng oddi ar y safle.
3. Yn unol â rheoliad 9(1), mae'r ONR wedi pennu'r ardal cynllunio argyfwng oddi ar y safle REPPIR o amgylch safle Wylfa i fod yr ardal o fewn y llinell werdd ar y map a atodwyd i'r llythyr hwn. Yn gyffredinol, gellir disgrifio'r ardal a ddiffiniwyd gan y map hwn fel:

Ardal o dir a ddiffinnir gan nodweddion daearyddol wedi eu lleoli o fewn radiws cylchol o tua 1-2.5 km o ganol safle trwyddedig niwclear Wylfa yn cynnwys pentrefi Treglele a Chemaes, ac ardal betryalog tua'r môr sy'n cychwyn ar y pwyntiau ble mae'r ardal tir yn cyrraedd yr arfordir, ac yn ymestyn i'r gogledd am oddeutu 1 km allan i'r môr.



4. Mae'r ardal gynllunio ehangach hon yn adlewyrchu gweithrediad penodol i safle egwyddorion diwygiedig yr ONR a chanllaw cysylltiedig ar gyfer pennu ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle REPPiR (a adolygwyd yn 2013 ac a gyhoeddwyd ar wefan yr ONR yn Ionawr 2014), ac ystyriaeth o rai trefniadau argyfwng oddi ar y safle presennol oedd yn ymestyn tu hwnt i'r ardal gylchol isafswm gofynnol. Mae'r ardal nawr wedi ei diffinio gan nodweddion daearyddol ac ystyriaeth o gymunedau bregus cyfagos. Mae hyn yn cynrychioli'r ardal ble byddai cynllunio argyfwng oddi ar y safle atodol yn fuddiol i ddiogelu'r cyhoedd a chyfyngu amlygiad cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol yn achos argyfwng ymbelydredd rhesymol ragweladwy. Mae'r newidiadau yn rhan o broses gwelliant parhaus yr ONR i adolygu cynllunio argyfwng ar gyfer diogelu'r cyhoedd os ceir argyfwng ymbelydredd annhebygol.
5. Yn ogystal â threfniadau dan REPPiR, mae'r ONR yn gofyn bod Magnox Ltd yn gwneud a gweithredu trefniadau digonol i ddelio gydag unrhyw ddamwain neu argyfwng yn deillio ar y safle a'u heffeithiau dan Amodau Trwyddedu⁽⁴⁾.
6. O ganlyniad i'r ail bennu hwn, ac yn unol gyda rheoliad 9(8) REPPiR, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu cynllun argyfwng oddi ar y safle diwygiedig o fewn chwe mis (neu gyfnod hirach a y mae'r ONR yn cytuno arno o flaen llaw yn ysgrifenedig)⁽⁵⁾ naill ai o pa bynnag un sydd hwyraf o ddyddiad derbyn y llythyr hwn, neu o dderbyn gwybodaeth o'r fath gan y gweithredwr fel sydd angen i ddibenion paratoi cynllun oddi ar y safle o'r fath. Rhaid i'r cynllun diwygiedig fod yn berthnasol i'r ardaloedd a ddiffinnir ym mharagraff 3 uchod.
7. Yn unol â rheoliad 16(1), mae'r ONR wedi hefyd wedi ail bennu'r ardal y mae'n rhaid i'r gweithredwr ddarparu gwybodaeth flaenorol ynddi dan REPPiR i fod yr un ardal a nodir o fewn y llinell werdd ar y map a atodwyd i'r llythyr hwn. Mae gan Magnox Ltd ddyletswydd cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodol o'r fath yn yr ardal hon, ac mae copi o'r llythyr yn eu cynghori o hyn hefyd wedi ei atodi.

Bydd yr ONR yn cyhoeddi Adroddiad Asesiad Prosiect gyda manylion y sail ar gyfer ei benderfyniad rheoleiddiol ar y wefan. Bydd hyn ar gael ar <http://www.onr.org.uk/depz.htm>.

Yn gywir,



Prif Arolygydd – Rhaglen Traws ONR



Nodiadau Esboniadol y Cyfeiriwyd Atynt:

(1) Mae ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle REPPIR Wylfa yn ardal y mae gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn fel y prif awdurdod lleol, dan reoliad 9(1) REPPIR, i gynhyrchu cynllun argyfwng oddi ar y safle i ddiogelu unigolion sydd, neu a allai fod, wedi eu lleoli yn yr ardal hon os ceir argyfwng ymbelydredd. Bydd y cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth gyhoeddus ac amrywiaeth o wrthfesurau a mesurau diogelu eraill sy'n berthnasol a chymesur i'r peryglon radiolegol sy'n gysylltiedig â safle Wylfa. Wrth ddatblygu'r cynllun argyfwng oddi ar y safle REPPIR, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori gydag ystod o bersonau yn cynnwys y gweithredwyr, yr ONR, y gwasanaethau brys, yr awdurdod iechyd perthnasol, a phersonau eraill o'r fath, cyrff ac awdurdodau a'r cyhoedd fel y mae'n ystyried i fod yn briodol.

(2) Mae egwyddorion diwygiedig yr ONR ar gyfer pennu ardaloedd cynllunio argyfwng ar gael ar: <http://www.onr.org.uk/depz-onr-principles.htm>


(3) Mae'r ardal cynllunio argyfwng oddi ar y safle REPPIR y cyfeiri ati yn y llythyr hwn wedi ei nodi fel y 'Parth Cynllunio Argyfwng Manwl' (DEPZ) ac yn cwmpasu pellter isafswm o 1.6 km o'r safle yng Nghynllun Argyfwng Oddi ar y Safle presennol y Cyngor.

(4) Byddai cynllun 'ar y safle' Magnox Ltd a'i gyfraniad i'r cynllun odid ar y safle (e.e. cymorth gyda gwrthfesurau brys), a'r cynllun argyfwng oddi ar y safle a sefydlir gan yr awdurdod lleol yn cael eu cydweddu gyda chyfyngiadau bwyd ehangach fel y pennwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol â'r Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985.

(5) Mae rheoliad REPPIR 9(8) yn caniatáu i'r ONR, ar gais y Cyngor, gytuno yn ysgrifenedig i gyfnod hirach ar gyfer adolygu dan amgylchiadau eithriadol.

Dosbarthiad

Magnox Ltd.



Cyngor Sir Ynys Môn



Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng
Rhanbarthol, Cyngorau Gogledd
Cymru



Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau:



Cyfoeth Naturiol Cymru



Asiantaeth Safonau Bwyd



Llywodraeth Cymru



Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd



ONR





Penderfyniad yr ONR o ardal cynllunio oddi ar y safle REPPIR a'r ardal wybodaeth flaenorol o amgylch safle trwyddedig Magnox Ltd Wylfa

Yn gyffredinol, gellir disgrifio'r ardal a ddiffiniwyd gan y map hwn fel:

Ardal o dir a ddiffinnir gan nodweddion daearyddol wedi eu lleoli o fewn radiws cylchol o tua 1-2.5 km o ganol safle trwyddedig niwclear Wylfa yn cynnwys pentrefi Tregele a Chemaes, ac ardal betryalog tua'r môr sy'n cychwyn ar y pwyntiau ble mae'r ardal tir yn cyrraedd yr arfordir, ac yn ymestyn i'r gogledd am oddeutu 1 km allan i'r môr.

